**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

8 Mai 2024

Annwyl Huw,

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) yn cynnal darn byr o waith ar wastraff yn ddiweddarach yn nhymor yr haf 2024. Bydd ffocws y gwaith hwn ar y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru tuag at gyflawni ei strategaeth economi gylchol, Mwy nag ailgylchu (Mawrth 2021), yn benodol:

- targedau 2025 - ailgylchu 70% ar gyfer gwastraff o gartrefi a busnesau masnachol a diwydiannol, 26% o ostyngiad cyffredinol mewn gwastraff, dim gwastraff i safleoedd tirlenwi, gostyngiad o 50% mewn gwastraff bwyd y gellir ei osgoi, a
- y camau a gymerwyd hyd yma, gyda'r nod o: ysgogi defnyddio deunyddiau mewn modd arloesol; cynyddu atal gwastraff ac ailddefnyddio; adeiladu ar ein hanes da o ailgylchu; buddsoddi mewn seilwaith; galluogi cymunedau a busnesau i weithredu; ac alinio ysgogiadau'r Llywodraeth.

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn y ffordd y mae/y bydd y canlynol yn effeithio ar gynnydd:

- Oedi cyn cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes a'r Diwygiadau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig.
- Cyflwyno'r gwaharddiad ar eitemau plastig untro a'r gofynion i fusnesau wahanu eu gwastraff.
- Parodrwydd y sector gwastraff a'r gofynion o ran buddsoddi mewn seilwaith.
- Deddf Marchnad Fewnol y DU

Rydym yn ymwybodol y byddwch eisoes yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ddwywaith yn ystod tymor yr haf 2024. Fel y cyfryw, nid ydym yn bwriadu eich gwahodd i roi tystiolaeth lafar mewn cysylltiad â'n gwaith ar wastraff. Byddai'n ddefnyddiol, fodd bynnag, pe gallech ddarparu papur

tystiolaeth ysgrifenedig sy'n ymdrin â'r materion a amlinellir uchod. Bydd cyfle i'r Pwyllgor eich holi ar eich ymateb pan fyddwch yn ymddangos ger ein bron ar 26 Mehefin 2024 ar gyfer gwaith craffu cyffredinol.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddefnyddio eich ymateb i lywio ein sesiynau tystiolaeth gyda rhanddeiliaid ar 13 Mehefin. Felly, byddai'n ddefnyddiol derbyn eich ymateb erbyn 29 Mai. Os cewch unrhyw anhawster i gwrdd â'r terfyn amser hwn, a fyddai modd i'ch swyddogion gysylltu â'r tîm clercio.

Yn gywir

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.